1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Chris Moore
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Sir Gâr Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

**Cyfeirnod:** WPP-22/23
**Dyddiad cyhoeddi:** 6 Gorffennaf 2023

Annwyl Chris,

## Ffurflen Flynyddol 2022-23 Cyd-bwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru

Yn unol â gofynion Adran 12 ac Adran 14 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yr wyf yn cyflwyno fy adroddiad ar Ffurflen Flynyddol Cyd-bwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Rwyf wedi ymgymryd â'n gwaith yn unol â'r gweithdrefnau penodedig a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. I grynhoi, mae'r gweithdrefnau hyn yn gofyn i ni ystyried a yw'r datganiad blynyddol o'r cyfrifon:

- wedi ei baratoi ar sail resymol (er enghraifft, mae'r ffigyrau'n cytuno i'r cofnodion sylfaenol y maent wedi'u paratoi arnynt ac yn gyson â thrafodion a gofnodwyd yng nghyfrifon statudol yr awdurdodau lleol cyfansoddol ar gyfer yr un cyfnod adrodd); ac yn

- cyfansymio'n gywir.

## Adroddiad archwilio ar y datganiad blynyddol o’r cyfrifon sy'n ymwneud â chyd-bwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

Yn amodol ar gymeradwyo y datganiad o’r cyfrifon 2022-23 gan y cyd-bwyllgor sydd i'w wneud yn ei gyfarfod ar 19/7/2023, bydd modd inni gadarnhau'r canlynol:

“Ar sail ein hadolygiad ac yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a geir yn y Ffurflen Flynyddol yn unol ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw gan beri pryder nad yw deddfwriaeth a gofynion rheoleiddio perthnasol wedi eu bodloni.”

## Materion eraill

Nid oes gennym unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eu dwyn i'ch sylw.

Yr eiddoch yn gywir



Derwyn Owen

ar gyfer ac ar ran Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru